# SÊR

Dros yr Eglwys a Maen Dylan
Bachwen a Phont y Cim
Da fyddai awyr dywyll
I mi gael gweld pob dim:

Y seren fawr tua'r Gogledd
A Gwener lachar, wen,
A'r seren losg sy'n gwibio
Ar daith drwy d'wllwch nen.

Y sêr sy'n wincio arnaf,
Yn berffaith, yno o hyd,
A'r *un* a aeth â'r doethion
At y baban yn ei grud.

Y Llwybr i Gaer Gwydion
A'r garreg fawr ar dân
A gwreichion iddi'n gynffon
Fel lluwch o eira mân.

Y blaned goch a dirgel,
Y sosban fach a'r fawr
A welaf efo'r heliwr
Rhwng machlud haul a gwawr.

Ond heb fod awyr dywyll
Ni fyddai'n gweld 'run dim
Dros yr Eglwys na Maen Dylan,
Bachwen na Phont y Cim.

*Ysgol Brynaerau*
*4 Mawrth 2026*